

Swyddfa Gartref  
Fframwaith  
Dangosyddion  
integreiddiad 2019

Theori Newid  
**Nodiadau canllaw**  
Rhan A

Mai 2019





© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

# Cynnwys

Cyflwyniad	5
Beth yw Theori Newid (ToC) ar gyfer Integreiddiad?	6
Cyflwyno Theori Newid ar gyfer Integreiddiad	8
Darllen pellach	11
Cyfeiriadau	11
Atodiad 1: Enghreifftiau ymarferol o ddefnyddio Theori Newid ar gyfer Integreiddiad	12
Atodiad 2: Y Grynodedb o Theori Newid ar gyfer Integreiddiad	21



---

# Cyflwyniad

---

# Cyflwyniad

Diben y canllawiau hyn yw darparu pwynt cyfeirio hawdd a chyfredol ar Theori Newid ar gyfer Integreiddio. Mae'r amcanion yn ddeublyg:

- 1) Cyflwyno Theori Newid ar gyfer Integreiddiad yn y Deyrnas Unedig.
- 2) Annog ymgynghori pellach ac adolygiad o Theori Newid ar gyfer Integreiddiad gan gymdeithas sifil.

Mae'r ddogfen waith hon ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio ar integreiddio a cheisio Theori Newid ar gyfer Integreiddiad. Bydd ymgynghoriadau pellach yn hysbysu diwygiadau o'r fframwaith hwn.

Nid yw'r canllaw hwn yn rhagnodol, ond mae'n ceisio mapio'r llwybrau lluosog i gyflwyno integreiddiad, yn hytrach na darparu atebion pendant. Gellid trin y Theori Newid hon fel theori newid lefel uchel ar gyfer integreiddiad y gellir ei haddasu i weddu i anghenion cyd-destunau a rhaglenni penodol, yn hytrach na rhestr wirio.

Mae Rhan B y ddogfen yn tywys ymarferwyr sydd eisiau datblygu eu Theoriau Newid eu hunain ar gyfer rhaglenni a strategaethau Integreiddio.

## Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon?

Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ar y cyd â dwy ddogfen arall sy'n esbonio beth yw'r Dangosyddion Integreiddiad:

- 1) ***Dangosyddion Fframwaith Integreiddio y Swyddfa Gartref*** (Swyddfa Gartref, 2019a) – mae'r adroddiad hwn yn sefydlu gweledigaeth ar gyfer integreiddiad y mae'r Theori Newid ar gyfer Integreiddiad yn seiliedig arno. Mae'n sefydlu 14 dangosydd integreiddiad a chanlyniadau terfynol ar gyfer pob Dangosydd Integreiddiad.
- 2) ***Pecyn Cymorth Dangosyddion Integreiddio*** (Swyddfa Gartref, 2019b) – offeryn rhyngweithiol yw hwn gyda dangosfwrdd sy'n darparu banc cwestiynau a ffynonellau data swyddogol ac ystadegau cenedlaethol sydd eisoes ar gael. Gellir addasu'r adnoddau hyn wrth gasglu data a'u defnyddio i gymharu ymatebion grŵp targed.

# Beth yw Theori Newid (ToC) ar gyfer Integreiddiad?

**Mae ToC ar gyfer Integreiddiad yn theori newid lefel uchel sy'n cwmpasu meysydd sectorau a pholisi ar lefel gyffredinol. Mae'n darparu fframwaith gyfeirio i asiantaethau cenedlaethol a lleol i ddatblygu eu Theoriau Newid eu hunain.**

Mae ToC ar gyfer Integreiddiad yn dangos sut all integreiddiad ddod yn realiti. Mae'r ToC ar gyfer Integreiddiad hwn yn cynnwys diagram manwl (Ffigwr 3) wedi ei syntheseiddio mewn diagram crynodeb un dudalen (Atodiad 2). Mae'r ToC yn darparu trosolwg o allbynnau a deilliannau sy'n gallu cynyddu integreiddiad economaidd-gymdeithasol y cymunedau sefydlog ac sy'n dod i mewn.

Mae ToC ar gyfer Integreiddiad yn addasu diffiniad 2018 o integreiddiad (Llywodraeth EM, 2018, t. 11): *“cymunedau ble mae pobl, beth bynnag eu cefndir, yn byw, gweithio, dysgu a chymdeithasu gyda'i gilydd, yn seiliedig ar hawliau, cyfrifoldebau a chyfleoedd a rennir”*.

Mae ToC ar gyfer Integreiddiad yn seiliedig ar y fframwaith a ddarperir yn Adroddiad Dangosyddion Integreiddiad (lol) y Swyddfa Gartref (2019) a gynhyrchwyd yn seiliedig ar ymchwil helaeth, mewnbwn academaidd ac ymgynghoriad gyda chymdeithas sifil.

Dywed y fframwaith lol bod *“Y dangosyddion yn gallu cael eu defnyddio gyda methodoleg theori*

*newid i sefydlu nodau (y 14 parh integreiddiad lefel uchel), lle mae tybiaethau a wneir am achosiaeth yn ymwneud â chyrraedd y nodau hyn a'r dangosyddion canlyniad priodol wedi eu nodi'n glir, gan alluogi ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn y nodau ac i berthnasau achosol gael eu hailystyried lle nad oes tystiolaeth i'w cefnogi mwyach”* (Swyddfa Gartref, 2019a, t. 17).

Cyflwynir y diagramau ToC mewn modd llinol i arddangos cerrig milltir a chysyniadau allweddol; fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae prosesau newid ynghylch integreiddiad yn gymhleth, gyda sawl dimensiwn, cyfeiriad a chyd-destun. Gall cynnydd symud ymlaen ac yn ôl. Gellir addasu'r ToC ar gyfer Integreiddiad fel fframwaith dadansoddol i gyd-destunau penodol mae ymarferwyr integreiddio yn gweithredu ynddi, yn hytrach na map rhagnodol llym.

Mae'r Dangosyddion Integreiddiad newydd (Ffigwr 1) wedi eu haddasu i ffurfio Canlyniadau yn y Theori Newid ar gyfer Integreiddiad.

Felly, cynrychiolir pob Dangosydd Integreiddiad (lol) gan ganlyniad mewn ToC. Fel yn y Fframwaith lol, mae canlyniadau ToC wedi eu grwpio mewn pedwar parh: Moddau a dynodwyr, Cysylltiadau cymdeithasol, Hwyluswyr a Seiliau integreiddiad. Mae pob canlyniad yr un mor bwysig ac yn gysylltiedig i'w gilydd, pob un yn atgyfnerthu neu ddylanwadu ar ei gilydd.

Ffigwr 1: Dangosyddion newydd y Fframwaith Integreiddio (Swyddfa Gartref, 2019a).

Dynodwyr a moddau	Cysylltiadau cymdeithasol	Hwyluswyr	Seiliau
Gwaith	Pontydd	Iaith	Cyfrifoldebau a Hawliau
Tai	Ymrwymadau	Diwylliant	
Addysg	Dolenni	TGCh	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol		Diogelwch	
Hamdden		Sefydlogrwydd	

**Gan fod pob lol yn cynnwys cyfres o ganlyniadau unigol yn y Fframwaith (Swyddfa Gartref, 2019a), gellir addasu'r un dangosyddion i fesur canlyniadau ac allbynnau o'r ToC ar gyfer Integreiddiad.**

# Cyflwyno Theori Newid ar gyfer Integreiddiad

Mae pedwar egwyddor sylfaenol y Fframwaith Dangosyddion Integreiddiad yn ategu'r model Theori Newid: mae sawl dimensiwn a chyfeiriad i integreiddiad, ac mae yna gyfrifoldeb cyfunol a chyd-destun penodol (Swyddfa Gartref, 2019a). Mae ToC ar gyfer Integreiddiad hefyd yn cydnabod cysylltiadau cyffredin lluosog rhwng dimensiynau integreiddiol. Nid oes hierarchaeth awgrymedig yn y model ToC. Nid oes yr un o'r canlyniadau nac allbynnau yn bwysicach na'r llall.

*Ffigwr 2: Camau Theori Newid ar gyfer Integreiddiad*

---

**Cam 1 Problem**  
Mae ToC yn dechrau gyda diffiniad o broblem sy'n cydnabod bod diffyg integreiddiad ymysg rhai rhannau o gymdeithas yn realiti ac yn cyfyngu ar eu galluoedd i gael mynediad at adnoddau, gwasanaethau a chyfrannu i gymdeithas.

---

**Cam 2 Rhwystrau**  
Mae'r rhwystrau mewn ToC yn amlinellu'r rhwystrau allweddol i arferion integreiddio effeithiol.

---

**Cam 3 Ymyraethau a Strategaethau**  
Rhoddir nifer o enghreifftiau o ymyraethau, ac arferion cenedlaethol a lleol da mewn ToC. Mae ymyraethau a strategaethau yn syrthio i ddau gategori: wedi eu prif ffrydio ar bob lefel ac wedi eu targedu i hyrwyddo agweddau penodol o integreiddio neu i ddelio gyda bylchau cynhwysiant penodol.

---

**Cam 4 Allbynnau**  
Mae pob bloc cysylltiedig i barth o allbynnau wedi ei ddylanwadu gan yr ymyraethau sy'n arwain atynt.

---

**Cam 5 Tybiaethau**  
Mae'r ToC wedi ei ategu gan dybiaethau a enwir, yn seiliedig ar ymchwil, ynghylch sut ellir cyflawni deilliannau a sut gallai ffactorau cyd-destunol ac amgylcheddol effeithio ar gyflawniad deilliannau. Mae'r tybiaethau mewn unrhyw ymyrraeth yn esbonio pam mae sefydliad yn credu y gallai ymyrraeth weithio.

---

**Cam 6 Canlyniadau**  
Mae pob canlyniad yn cynrychioli parth integreiddiol a gynigir yn y fframwaith lol newydd. Mae'r saethau achosol rhwng deilliannau yn dangos y gall pob blwch canlyniad effeithio ar unrhyw flwch canlyniad arall.  
  
Bydd y cysylltiadau cymhleth hyn rhwng canlyniadau yn cael eu diffinio ymhellach wrth gasglu data yn defnyddio'r lol.

---


**Cam 7 Effaith**  
Mae pob canlyniad mewn ToC, sy'n cefnogi a dylanwadu ar ei gilydd, yn arwain at effaith - integreiddiad digonol o bob aelod o gymdeithas waeth beth yw eu cefndir sy'n byw, gweithio, dysgu a chymdeithasu gyda'i gilydd, yn seiliedig ar hawliau, cyfrifoldebau a chyfleoedd cyfunol.

---



Ffigwr 3: Theori Newid ar gyfer Integreiddiad

<https://www.gov.uk/government/publications/home-office-indicators-of-integration-framework-2019>



## Tybiaethau (hypothesis)

Roedd defnyddio'r model hwn yn symleiddio materion cymhleth er mwyn gallu eu harddangos yn y diagram. Mae'r model yn celu nifer o dybiaethau sylfaenol ar sut all newid ddigwydd.

Yn seiliedig ar ymchwil, mae ToC ar gyfer Integreiddiad wedi rhestru tybiaethau cyffredinol nad ydynt yn hollgynhwysol ar draws yr holl barthau integreiddiol yn esbonio sut gall integreiddiad ddigwydd, fel a ganlyn:

- Mae integreiddio yn broses ddwy ffordd:
  - Mae gan gymunedau sy'n dod i mewn neu sefydlog gyfrifoldeb i hyrwyddo integreiddiad, hawliau a chyfrifoldebau pawb.
  - Mae gan sefydliadau eraill ac chyfranogwyr o'r llywodraeth hefyd rôl i'w chwarae.
- Mae gan NGOs, sefydliadau cymunedol a sefydliadau cymunedau ffoaduriaid hefyd rôl yn y broses o newid ar gyfer sefydlu integreiddiad; dylid eu cefnogi i eirioli ar gyfer hawliau pobl a darparu mynediad at wasanaethau.
- Mae cynhwysiad pob person yn gydran allweddol o integreiddiad ac felly mae ToC yn ddibynnol ar unigolion yn cymryd camau i fynnu ac arfer eu hawliau ac y bydd hyn yn cefnogi integreiddiad i bawb.
- Mae hawliau a chyfrifoldebau yn ddwyochrog.

Ar wahân i'r tybiaethau cyffredinol, mae ToC ar gyfer Integreiddiad wedi rhestru nifer fwy o dybiaethau penodol:

- Moddau a dynodwyr:
  - Mae integreiddio economaidd-gymdeithasol ymysg ymfudwyr yn arwain at wella cyfleoedd economaidd ar gyfer ymfudwyr a chymunedau sefydlog.
  - Gall ymfudwyr a ffoaduriaid gystadlu a llwyddo yn yr economi llafur, symud a chanfod tai digonol a chyfleoedd hamdden.
- Cysylltiadau cymdeithasol:
  - Mae cysylltiadau cymdeithasol yn gwneud cymunedau'n fwy cydlynol.
  - Mae cymunedau ymfudwyr a sefydlog yn cymysgu a datblygu cysylltiadau cymdeithasol.

- Mae ymfudwyr yn barod i ddatblygu perthnasau cefnogol sy'n eu hymrwymo i eraill.
- Mae cymunedau sefydlog yn groesawgar ac yn addasu.
- Gall ymfudwyr addasu'n gorfforol ac emosiynol.
- Hwyluswyr:
  - Mae ymfudwyr a ffoaduriaid yn barod i a gallant gaffael galluoedd iaith a TGCh digonol.
  - Mae mynegiant cyhoeddus yn herio gwahaniaethu hiliol ac yn hyrwyddo amrywiaeth.
  - Mae troseddau casineb a thrais yn erbyn cymunedau ymfudwyr a sefydlog yn cael ei atal a'i daclo'n ddigonol.
- Sylfaen:
  - Mae dewisiadau dinasyddiaeth ar gael ac yn helpu hawliau mynediad.

## Enghreifftiau o ymyraethau

Mae'r ymyraethau yn cefnogi creu amgylchedd galluogi a thargedu rhwystrau penodol i integreiddiad. Mae'r enghreifftiau a ddarperir mewn ToC ar gyfer Integreiddiad yn deillio o'r arferion da cenedlaethol a lleol a grybwyllir yn y Fframwaith Iol (Swyddfa Gartref, 2019a). Nid yw'r ymyraethau a awgrymir yn hollgynhwysol, gan y bydd angen i gynllun rhaglen effeithiol ymateb i amrywiaeth o ffactorau nad ydynt yn benodol i'r cyd-destun. Er enghraifft, mewn rhai sefyllfaoedd, mae grymuso economaidd yn allweddol gan y gall dibyniaeth economaidd fod yn ffactor sy'n llesteirio integreiddiad, ond gall hefyd fod yn allweddol mewn meysydd eraill, megis gwella iechyd, cymysgu'n gymdeithasol a chaffael cymwyseddau diwylliannol a TGCh digonol.

Mae'r saethau achosol rhwng ymyraethau yn dynodi y gall pob blwch ymyrraeth effeithio ar unrhyw flwch ymyrraeth arall. Er enghraifft, mae ymyraethau yn hyrwyddo cartrefi digonol yn dylanwadu ar deimladau pobl o ddiogelwch a sefydlogrwydd; neu bydd ymyraethau yn eirioli ar gyfer mynediad i ddinasyddiaeth yn llunio mynediad at gyflogaeth, addysg, iechyd ac ati.

## Defnyddio Theori Newid ar gyfer Integreiddiad yn ymarferol

Mae Atodiad 1 yn cyflwyno nifer o enghreifftiau ymarferol o sut gellir addasu ToC ar gyfer Integreiddiad yn ymarferol.

## Darllen pellach

- Am fanylion pellach ar ddatblygu rhaglen Theori Newid ar gyfer Integreiddiad, gweler y Nodiadau Canllaw, rhan B.
- Canolfan ar gyfer Theori Newid – ar gael ar: <https://www.theoryofchange.org>

## Cyfeiriadau

Llywodraeth EM (2018) Papur Gwyrdd Strategaeth Cymunedau Integredig. Ar gael ar: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/696993/Integrated\\_Communities\\_Strategy.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/696993/Integrated_Communities_Strategy.pdf) [cyrchwyd 03/04/2019]

Swyddfa Gartref (2019a) Dangosyddion Fframwaith Integreiddio y Swyddfa Gartref. Llundain

Swyddfa Gartref (2019b) Pecyn Cymorth Dangosyddion Integreiddio. Llundain

# Atodiad 1: Enghreifftiau ymarferol o ddefnyddio Theori Newid ar gyfer Integreiddiad

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos sut gellir defnyddio'r Theori Newid ar gyfer Integreiddiad neu ei addasu wrth gynllunio rhaglen. Cyflwynir pob enghraifft mewn gwahanol gyd-destun ac ar lefel amrywiol o adnoddau sefydliadol, yn dangos sut gall sefydliadau gydag adnoddau minimol, canolig a digonol ar gyfer gwerthusiad ddefnyddio'r ToC a Fframwaith Iol. Mae Rhan B yn tywys ymarferwyr o ran datblygu eu theorïau newid eu hunain.

## Astudiaeth achos 1

Mae sefydliad anlywodraethol cenedlaethol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr gyda digon o adnoddau ar gyfer gwerthusiad yn anelu i gryfhau cydlyniad cymdeithasol a chynyddu diogelwch cymunedau ymfudwyr a sefydlog. Mae'r rheolwr prosiect ar fin cychwyn cynllunio rhaglen i gyfrannu i gyflawni ymrwymadau o'r fath. Mae'r camau canlynol yn nhabl 1 yn dangos sut all ToC ar gyfer integreiddiad helpu o ran cynllunio rhaglen.

Tabl 1: Enghraifft o addasu ToC ar gyfer Integreiddiad mewn cynllunio rhaglen mewn sefydliad gydag adnoddau digonol

Cam	Addasu ToC ar gyfer Integreiddiad	Enghraifft o astudiaeth achos (damcaniaethol)
A	Nodwch pa <b>barthau</b> integreiddio bydd y rhaglen yn delio â nhw (gweler y <i>diagram ToC neu'r Iol 2019</i> ) ac addasu i <b>ddiffinio nod eich prosiect neu effaith a ddymunir</b> yr hoffech chi i'ch rhaglen gyflawni.	<b>Parth:</b> Diogelwch a phontydd cymdeithasol <b>Nod/effaith y prosiect:</b> I ddelio â lefelau uchel o aflonyddu hiliol ac i hyrwyddo cymysgu cymdeithasol
B	Lleoli parth dethol integreiddiad ar <b>lefel canlyniad ToC</b> a'i addasu i ddiffinio eich canlyniad/canlyniadau o'r rhaglen.	<b>Canlyniad y prosiect:</b> Mae cymunedau ymfudwyr a sefydlog yn gydlynol a diogel yn eu hardaloedd lleol
C	Archwiliwch y meysydd <b>allbwn</b> ar gyfer eich ymyrraeth (o fewn y golofn o flychau dan y canlyniad/au a ddewisoch yng ngham B). Dewiswch allbynnau sy'n berthnasol i'ch rhaglen a'u haddasu i ddiffinio eich allbynnau.	<b>Allbwn prosiect 1:</b> Gwella ymwybyddiaeth o ddeddfau gwrthwahanïaethu ac adrodd am droseddau a thrais <b>Allbwn prosiect 2:</b> Cynyddu perthnasau cymdeithasol rhwng cymunedau sefydlog ac ymfudwyr

<p><b>D</b></p>	<p>Gweler y <b>canlyniadau unigol o Ddangosyddion Integreiddiad yn y fframwaith lol</b> (Nodiadau Canllaw, Rhan B, Atodiad 2) ac addasu'r rhai sy'n cyd-fynd â'ch <b>canlyniadau ac allbynnau</b>.</p>	<p><b>Dangosyddion canlyniadau'r prosiect:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• % yn adrodd am aflonyddu neu ddigwyddiadau hiliol, diwylliannol neu grefyddol</li> <li>• % yn adrodd trosedd casineb</li> <li>• % yn adrodd bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn eu hardal</li> </ul> <p><b>Rhagdybiaethau:</b> Mae'r dangosyddion hyn yn tybio bod adrodd teimladau o ddiogelwch gan ymfudwyr ac adrodd bod 'pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda' yn awgrymu bod cymunedau ymfudwyr a sefydlog yn ddiogel a chydlynol. Dylid cefnogi rhagdybiaethau gydag ymchwil.</p> <p><b>Sylwadau ar gyfer gwerthuso:</b> Gellir dilysu dangosyddion canlyniad ac allbwn trwy ddefnyddio dulliau casglu data ansoddol a meintiol, er enghraifft cyfeirio at ddata swyddogol presennol ac ystadegau cenedlaethol, neu gyflawni eich arolygon gwerthuso, trafodaethau grwpiau ffocws a chyfweliadau eich hun gyda buddiolwyr y prosiect (gweler canllaw B). Mae'n ddefnyddiol i sefydlu data llinell sylfaen er mwyn gallu arddangos cynnydd ar ddiwedd y prosiect. Hefyd, mae'n ddefnyddiol i ddilysu casgliadau trwy gyfuno dulliau ymchwil ansoddol a meintiol, gan ddefnyddio 'triangli'. Gweler Rhan B y Canllaw am arweiniad pellach ar gasglu data.</p> <p><b>Mae'r Pecyn Cymorth lol yn darparu amrywiaeth o gwestiynau ar gyfer canlyniadau unigol y Dangosyddion Integreiddiad</b> y gellir eu defnyddio yn y dulliau casglu / gwerthuso data i helpu mesur dangosyddion dethol.</p> <p><b>Dangosyddion allbwn prosiect:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hunan adrodd gan yr unigolyn o deimlo'n ddiogel wrth gerdded ar ben ei hun yn ystod y dydd / nos</li> <li>• % o bobl leol yn mynegi dehongliadau positif tuag at eraill yn eu cymuned leol</li> <li>• % o bobl leol yn (cymunedau ymfudwyr a sefydlog) sy'n adrodd cymysgu gyda phobl o wahanol gefndiroedd cenedlaethol ac ethnig mewn sefyllfaoedd bob dydd</li> </ul> <p><i>Dylid dadgyfuno dangosyddion yn ôl rhyw, oed, ethnigrwydd ac unrhyw farcwyr hunaniaeth gymdeithasol arall sy'n berthnasol i asesiad effaith/gwerthusiad y rhaglen (e.e. statws ymfudo)</i></p>
-----------------	--	--

<b>E</b>	Archwilio'r <b>ymyraethau a strategaethau</b> mewn ToC i ddiffinio mentrau'r rhaglen neu gynnig ymyraethau perthnasol eraill. Dylai pob menter gyfateb i'ch deilliannau/allbynnau a dangosyddion prosiect diffiniedig.	<p><b>Mentrau'r prosiect:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgyrch ymwybyddiaeth ynghylch deddfau gwahaniaethu ac adrodd</li> <li>• Trefnu digwyddiadau diwylliannol cymunedol ar gyfer cymunedau sefydlog ac ymfudwyr i ddod i adnabod ei gilydd</li> </ul> <p><i>Unwaith bydd eich fframwaith ToC yn ei lle, datblygu cynllun gweithredu gyda'r tasgau, gweithgareddau a chyfrifoldebau manwl.</i></p>
----------	--	--

## Astudiaeth achos 2

Sefydliad gydag **adnodd ganolig** ar gyfer gwerthuso yn Efrog sy'n anelu i sicrhau bod pob merch o gymunedau ymfudwyr a ffoaduriaid yn cael mynediad digonol at addysg uwchradd a thrydyddol. Eu gobaith yw gweld pob merch yn y gymuned ymfudwyr a ffoaduriaid yn ffynnu mewn ysgolion yn eu cymunedau.

Tabl 2: Enghraifft o ddefnyddio ToC mewn cynllunio rhaglen mewn sefydliad gydag **adnodd ganolig**

Cam	Esboniad	Enghraifft o astudiaeth achos
<b>A</b>	Nodwch pa <b>barthau</b> integreiddio fydd y rhaglen yn delio â nhw ( <i>gweler y diagram ToC neu'r lol 2019</i> ) ac addasu i <b>ddiffinio nod eich prosiect neu effaith a ddymunir</b> yr hoffech chi i'ch rhaglen gyflawni.	<p><b>Parth:</b> Addysg a Diwylliant</p> <p><b>Nod/effaith y prosiect:</b> Merched ymfudwyr a ffoaduriaid yn cofrestru mewn addysg uwchradd a mynediad at addysg drydyddol</p>
<b>B</b>	Lleoli parth dethol integreiddiad ar <b>lefel canlyniad ToC</b> a'i addasu i ddiffinio eich canlyniad/canlyniadau o'r rhaglen	<p><b>Canlyniad y prosiect:</b> Merched ymfudwyr a ffoaduriaid yn mwynhau addysg uwchradd gynhwysfawr i bawb</p>
<b>C</b>	Archwiliwch y meysydd <b>allbwn</b> ar gyfer eich ymyrraeth (o fewn y golofn o flychau dan y canlyniad/au a ddewisoch yng ngham B). Dewiswch allbynnau sy'n berthnasol i'ch rhaglen a'u haddasu i ddiffinio eich allbynnau.	<p><b>Allbwn prosiect 1:</b> Cyflawni pump neu fwy TGAU/Graddau Safonol ar 9-4 (A*-C) a dau neu fwy lefel 'Uwch' neu basio Advanced Higher gan ferched ymfudwyr a ffoaduriaid</p> <p><b>Allbwn prosiect 2:</b> Mynediad i addysg drydyddol a phrifysgolion gan ferched ymfudwyr a ffoaduriaid</p>

<p><b>D</b></p>	<p>Gweler y <b>canlyniadau unigol o Ddangosyddion Integreiddiad yn y fframwaith lol</b> (Nodiadau Canllaw, Rhan B, Atodiad 2) ac addasu'r rhai sy'n cyd-fynd â'ch <b>canlyniadau ac allbynnau</b>.</p>	<p><b>Dangosydd canlyniadau'r prosiect:</b> Myfyrwyr uwchradd yn adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn yn yr ysgol</p> <p><b>Rhagdybiaeth:</b> Mae'r prosiect hwn yn rhagdybio bod adrodd teimlad o berthyn yn yr ysgol yn cyfateb i fwynhau addysg gynhwysol. Po fwyaf cadarn yw'r sylfaen o dystiolaeth, y mwyaf dibynadwy y gellir gwneud rhagdybiaeth.</p> <p><b>Dangosyddion allbwn prosiect:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• % yn cyflawni pump neu fwy TGAU/ Graddau Safonol 9-4 (A*-C) (neu gyrhaeddiad addysgol cyfatebol ar gyfer plant rhwng 12 a 16 oed)</li> <li>• % yn cyflawni dau neu fwy lefel 'Uwch' neu basio Advanced Higher (neu gyrhaeddiad addysgol cyfatebol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 17 a 18 oed)</li> <li>• % o bobl ifanc ac oedolion yn cael eu derbyn i addysg drydyddol a phrifysgol</li> </ul> <p><b>Dadgyfuno data:</b> Dylid dadgyfuno'r tri dangosydd allbwn uchod o leiaf yn ôl rhyw, oed a statws cyfreithiol. Gellir cael data gan awdurdodau lleol a data swyddogol o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (c. 36) sy'n rhoi hawl i'r cyhoedd i fynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus.</p> <p><b>Rhagdybiaeth:</b> Mae'r prosiect hwn yn rhagdybio bod cyflawniadau mewn addysg a derbyn i addysg drydyddol yn arwain at brofiad cynhwysol o addysg ymysg merched ymfudwyr a ffoaduriaid. Mae rhagdybiaeth o'r fath yn ddibynnol ar gadernid y dystiolaeth sydd ar gael.</p> <p><i>Os yw adnoddau'n caniatáu, ystyriwch gasglu'r data llinell sylfaen er mwyn gallu cofnodi cynnydd yn erbyn y data prosiect llinell derfyn. Hefyd, os yn bosibl, cymerwch gamau i ddilysu data trwy gyfuno gwahanol ddulliau ymchwil (defnyddio 'triongli') i bennu cadernid casgliadau ymchwil. Gweler Rhan B y Canllaw am arweiniad pellach.</i></p>
-----------------	--	--

<p><b>E</b></p>	<p>Archwilio'r <b>ymyraethau a strategaethau</b> mewn ToC i ddiffinio mentrau'r rhaglen neu gynnig ymyraethau perthnasol eraill. Dylai pob menter gyfateb i'ch deilliannau/allbynnau a dangosyddion prosiect diffiniedig.</p>	<p><b>Mentrau'r prosiect:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Allgymorth i gymunedau ymfudwyr a ffoaduriaid gyda gwybodaeth am ysgolion lleol yn yr ardaloedd dalgylch trwy gydweithredu gyda sefydliadau cymunedol</li> <li>• Cefnogi teuluoedd i ffeilio ceisiadau ysgolion</li> <li>• Mentora disgyblion gan gyfoedion</li> <li>• Monitro cyfraddau cofrestru o ardaloedd dalgylchoedd ysgolion</li> <li>• Darparu gwybodaeth ar ysgoloriaethau a bwrsariaethau</li> <li>• Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd addysg a'r cyfleoedd sydd ar gael</li> <li>• Darparu cefnogaeth academaidd a chynnydd a chyngor i gydnabod anghenion amrywiol</li> </ul> <p><i>Unwaith bydd eich fframwaith ToC yn ei lle, datblygu cynllun gweithredu gyda'r tasgau, gweithgareddau a chyfrifoldebau manwl.</i></p>
-----------------	---	---

### Astudiaeth achos 3

Mae sefydliad bach gydag **adnodd minimol** ar gyfer gwerthuso yn Blackpool yn ceisio annog adrodd am gam-drin a chwilio am gefnogaeth. Hoffent gyfrannu at gynyddu diogelwch ac amgylchedd amddiffynnol ar gyfer menywod mudol.

Tabl 3: Enghraifft o ddefnyddio ToC mewn cynllunio rhaglen mewn sefydliad gydag adnodd minimol ar gyfer gwerthuso

Cam	Esboniad	Enghraifft o astudiaeth achos
<p><b>A</b></p>	<p>Nodwch pa <b>barthau</b> integreiddio fydd y rhaglen yn delio â nhw (gweler y diagram ToC neu'r lol 2019) ac addasu i <b>ddiffinio nod eich prosiect neu effaith a ddymunir</b> yr hoffech chi i'ch rhaglen gyflawni</p>	<p><b>Parth:</b> Diogelwch</p> <p><b>Nod/effaith y prosiect:</b> I geisio cynyddu cyfraddau adrodd ar drais seiliedig ar ryw ymysg menywod mudol</p>
<p><b>B</b></p>	<p>Lleoli parth dethol integreiddiad ar <b>lefel canlyniad ToC</b> a'i addasu i ddiffinio eich canlyniad/ canlyniadau o'r rhaglen</p>	<p><b>Canlyniad y prosiect:</b> Menywod mudol yn byw yn rhydd rhag trais</p>
<p><b>C</b></p>	<p>Archwiliwch y meysydd <b>allbwn</b> ar gyfer eich ymyrraeth (o fewn y golofn o flychau dan y canlyniad/au a ddewisoch yng nghanam B). Dewiswch allbynnau sy'n berthnasol i'ch rhaglen a'u haddasu i ddiffinio eich allbynnau</p>	<p><b>Allbwn prosiect 1:</b> Ymwybyddiaeth ddigonol o sut i adrodd am erledigaeth rywiol, yn cynnwys trais domestig</p> <p><b>Allbwn prosiect 2:</b> Mecanweithiau atal ac ymateb ar lefel gymunedol i drais seiliedig ar ryw</p>



<p><b>D</b></p>	<p>Gweler y <b>canlyniadau unigol o Ddangosyddion Integreiddiad yn y fframwaith lol</b> (Nodiadau Canllaw, Rhan B, Atodiad 2) ac addasu'r rhai sy'n cyd-fynd â'ch <b>canlyniadau ac allbynnau</b>.</p>	<p><b>Dangosyddion canlyniadau'r prosiect:</b> Nid yw'r Fframwaith lol yn darparu dangosyddion uniongyrchol i asesu'r canlyniad uchod, ac eto gellid defnyddio'r dangosyddion dirprwyol canlynol o'r Fframwaith lol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• % o fenywod yn adrodd am erledigaeth rywiol ac/neu drais domestig</li> <li>• % yn adrodd teimlo'n ofnus neu'n ansicr</li> </ul> <p><b>Rhagdybiaeth:</b> Mae rhagdybiaeth sylweddol yn ymwneud â thybio bod cyfraddau is o adrodd am drais seiliedig ar ryw (GBV) a theimlo'n ofnus yn gyfatebol i gyfradd adrodd menywod o fyw'n rhydd o drais, nad yw o reidrwydd yn wir, oherwydd gall cyfraddau adrodd is awgrymu diwylliant o beidio siarad a rhwystrau i adrodd am ddigwyddiadau treisgar mae dioddefwyr/goroeswyr yn wynebu. Mae'r rhagdybiaeth hon yn ddibynnol ar gadernid tystiolaeth sydd ar gael. Os yw'r dystiolaeth yn gadarn, mae'r cysylltiadau a thybiaethau a wneir yn well.</p> <p><b>Sylwadau ar gyfer gwerthuso:</b> Er mwyn mesur y dangosyddion, gellid sefydlu'r mesurau meintiol ac ansoddol sylfaenol i werthuso cynnydd ymyrraeth, er enghraifft, cyflawni arolwg cyn y prosiect (llinell sylfaen), canol prosiect ac yn dilyn y prosiect gyda buddiolwyr y prosiect neu grŵp sampl o'r boblogaeth darged, neu drafodaethau/cyfweliadau grŵp ffocws.</p> <p><b>Dangosyddion allbwn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• % o fenywod mudol yn adrodd ymwybyddiaeth o sut i adrodd am erledigaeth rywiol, yn cynnwys trais domestig</li> <li>• Nifer o fentrau atal ac ymateb ar lefel gymunedol i GBV</li> </ul> <p><b>Sylwadau ar gyfer gwerthuso:</b> Yn hytrach na dewis dangosyddion ystadegol, gallai sefydliadau gydag isafswm adnoddau ar gyfer gwerthuso ddefnyddio allbynnau prosiect i werthuso cynnydd, megis adroddiadau cyfnodol prosiect yn cyfeirio at allbynnau prosiect, cofnodion cyfarfod ac allbynnau gweithgaredd e.e. cyflwyniadau cyfarfod, taflenni.</p> <p><i>Os yw adnoddau'n caniatáu, ystyriwch gasglu'r data llinell sylfaen er mwyn gallu cofnodi cynnydd yn erbyn y data prosiect llinell derfyn. Hefyd, os yn bosibl, cymerwch gamau i ddilysu data trwy gyfuno gwahanol ddulliau ymchwil (defnyddio 'triongli') i bennu cadernid casgliadau ymchwil. Gweler Rhan B y Canllaw am arweiniad pellach.</i></p>
-----------------	--	---

<p><b>E</b></p>	<p>Archwilio'r ymyraethau a strategaethau mewn ToC i ddiffinio mentrau'r rhaglen neu gynnig ymyraethau perthnasol eraill. Dylai pob menter gyfateb i'ch deilliannau/allbynnau a dangosyddion prosiect diffiniedig.</p>	<p><b>Mentrau'r prosiect:</b></p> <p>Sensiteiddio menywod mudol am fecanwaith adrodd GBV mewn canolfannau iechyd, ysgolion a chanolfannau cymunedol a llefydd diogel cyhoeddus eraill</p> <p>Neilltuo pwyntiau ffocws cymunedol ar gyfer dosbarthu negeseuon ataliol GBV mewn llefydd diogel cymunedol</p> <p>Hyfforddi pwyntiau ffocws i gryfhau a lledaenu'r llwybrau atgyfeirio lleol ar gyfer goroeswyr GBV ymysg darparwyr gwasanaethau</p> <p>Unwaith bydd eich fframwaith ToC yn ei lle, datblygu cynllun gweithredu gyda'r tasgau, gweithgareddau a chyfrifoldebau manwl.</p>
-----------------	--	---

## Astudiaeth achos 4

Sefydliad gydag adnodd minimol ar gyfer gwerthuso yn Solihull sy'n anelu i sicrhau bod pob merch o gymunedau ymfudwyr a ffoaduriaid yn ddiogel ac yn rhydd rhag arferion traddodiadol niweidiol.

Tabl 4: Enghraifft o ddefnyddio ToC mewn cynllunio rhaglen mewn sefydliad gydag adnodd minimol ar gyfer gwerthuso


Cam	Esboniad	Enghraifft o astudiaeth achos
<p><b>A</b></p>	<p>Nodwch pa barthau integreiddio fydd y rhaglen yn delio â nhw (gweler y diagram ToC neu'r lol 2019) ac addasu i ddiffinio nod eich prosiect neu effaith a ddymunir yr hoffech chi i'ch rhaglen gyflawni.</p>	<p><b>Parth:</b></p> <p>Diwylliant</p> <p>Nod/effaith y prosiect:</p> <p>Mae'r holl ferched ymfudwyr a ffoaduriaid yn byw'n rhydd rhag arferion niweidiol ac yn mwynhau iechyd da</p>
<p><b>B</b></p>	<p>Lleoli parth dethol integreiddiad ar lefel canlyniad ToC a'i addasu i ddiffinio eich canlyniad/canlyniadau o'r rhaglen.</p>	<p><b>Canlyniad y prosiect 1:</b></p> <p>Ymwybyddiaeth ddigonol o gyfraith y Deyrnas Unedig parthed bywyd ac arferion beunyddiol nad ydynt yn gyfreithiol yn y Deyrnas Unedig</p> <p>Canlyniad y prosiect 2:</p> <p>Merched ymfudwyr a ffoaduriaid yn mwynhau iechyd da</p>
<p><b>C</b></p>	<p>Archwiliwch y meysydd allbwn ar gyfer eich ymyrraeth (o fewn y golofn o flychau dan y canlyniad/au a ddewisoch yng ngham B). Dewiswch allbynnau sy'n berthnasol i'ch rhaglen a'u haddasu i ddiffinio eich allbynnau.</p>	<p><b>Allbwn prosiect 1:</b></p> <p>Ymwybyddiaeth ddigonol o niwed o a thrawsnewid agweddau tuag at arferion sy'n anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig</p> <p><b>Allbwn prosiect 2:</b></p> <p>Mynediad cynhwysol i ffoaduriaid ac ymfudwyr i wasanaethau iechyd</p> <p>Mynediad digonol i ffoaduriaid ac ymfudwyr i wasanaethau arbenigol y GIG</p>

<p><b>D</b></p>	<p>Gweler y <b>canlyniadau unigol o Ddangosyddion Integreiddiad yn y fframwaith lol</b> (Nodiadau Canllaw, Rhan B, Atodiad 2) ac addasu'r rhai sy'n cyd-fynd â'ch <b>canlyniadau ac allbynnau</b>.</p>	<p><b>Dangosyddion canlyniadau'r prosiect:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• % yn ymwybodol o ac yn cadw at ddeddfau'r Deyrnas Unedig parthed arferion nad ydynt yn gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig (e.e. Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), trais domestig)</li> </ul> <p><b>Sylwadau ar gyfer gwerthuso:</b>          Gellid defnyddio'r dangosydd hwn fel <b>dirprwy ddangosydd</b> ar gyfer asesu os yw menywod ymfudwyr a ffoaduriaid yn byw'n rhydd rhag arferion niweidiol gan dybio bod ymwybyddiaeth eu gwarchodwyr/rhieni yn trosi i osgoi arferion o'r fath. Neu, gellid addasu dangosydd arall, cyfatebol i allbwn, i wella gwerthusiad o gynnydd yn defnyddio dulliau gwerthuso meintiol neu ansoddol; er enghraifft, arolwg gwybodaeth, agweddau ac arferion (KAP) yn mesur ymwybyddiaeth o ac agweddau tuag at arferion niweidiol ymysg cymunedau ymfudwyr a ffoaduriaid.</p> <p>Gellid defnyddio cwestiynau a ddarparwyd yn y Pecyn lol yn erbyn dangosyddion penodol yn y dulliau gwerthuso:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• % yn mynegi hunan raddiad da o iechyd a lles (gan ferched ymfudwyr a ffoaduriaid)</li> </ul> <p><b>Dangosyddion allbwn prosiect:</b>          Dangosyddion wedi addasu yn erbyn Allbwn 1:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefel ymwybyddiaeth merched a'u rhieni/gwarchodwyr am niwed arferion niweidiol</li> <li>• % o ferched a'u rhieni/gwarchodwyr yn mynegi anoddefgarwch o/condemnio arferion niweidiol</li> </ul> <p>Gellir addasu deilliannau unigol lol ar gyfer Allbwn 2:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• % wedi cofrestru gyda meddyg teulu</li> <li>• % wedi cofrestru gyda deintydd</li> <li>• % yn cael mynediad i wasanaethau arbenigol y GIG pan fydd angen</li> <li>• % yn defnyddio gwasanaethau ataliol (e.e. imiwneiddio)</li> <li>• % o unigolion yn deall sut i gael mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol</li> </ul>
-----------------	--	--

		<p><b>Sylwadau ar gyfer gwerthuso:</b>          Gellir defnyddio'r dangosyddion uchod trwy ddefnyddio data swyddogol, os ar gael (gweler y pecyn lol a ffynonellau data a restrir), trwy awdurdodau lleol (yn defnyddio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (c. 36)) sy'n rhoi hawl i'r cyhoedd i fynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus) neu trwy gyflawni arolygon sylfaenol gyda sampl buddiolwyr y prosiect. Data i'w ddadgyfuno yn ôl rhyw ac oed. Hefyd, er enghraifft, gellir defnyddio trafodaethau a chyfweliadau grwpiau ffocws gyda buddiolwyr yn defnyddio'r cwestiynau a ddarparwyd yn y Pecyn lol (yn erbyn lol canlyniad penodol).</p> <p><i>Os yw adnoddau'n caniatáu, ystyriwch gasglu'r data llinell sylfaen er mwyn gallu cofnodi cynnydd yn erbyn y data prosiect llinell derfyn. Hefyd, os yn bosibl, cymerwch gamau i ddilysu data trwy gyfuno gwahanol ddulliau ymchwil (defnyddio 'triongli') i bennu cadernid casgliadau ymchwil. Gweler Rhan B y Canllaw am arweiniad pellach.</i></p>
<p><b>E</b></p>	<p>Archwilio'r <b>ymyraethau a strategaethau</b> mewn ToC i ddiffinio mentrau'r rhaglen neu gynnig ymyraethau perthnasol eraill. Dylai pob menter gyfateb i'ch deilliannau/allbynnau a dangosyddion prosiect diffiniedig.</p>	<p><b>Mentrau'r prosiect:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefnu digwyddiadau diwylliannol a chyfarfodydd gyda chymunedau sefydlog i ddysgu am ddiwylliant Prydeinig ar gyfer teuluoedd ymfudwyr a ffoaduriaid</li> <li>• Codi ymwybyddiaeth am niwed arferion niweidiol mewn modd diwylliannol sensitif trwy sefydliadau ffoaduriaid a chymunedol, a sefydliadau seiliedig ar ffydd</li> <li>• Gwella llythrennedd iechyd merched ymfudwyr a ffoaduriaid a'u teuluoedd</li> <li>• Cefnogi mynediad merched at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy sefydliadau cymunedol lleol</li> </ul> <p><i>Unwaith bydd eich fframwaith ToC yn ei lle, datblygu cynllun gweithredu gyda'r tasgau, gweithgareddau a chyfrifoldebau manwl.</i></p>

# Atodiad 2: Y Grynodedb o Theori Newid ar gyfer Integreiddiad

Mae'r diagram crynodeb o'r Theori Newid ar gyfer Integreiddiad yn syntheseiddio'r diagram cynhwysfawr ar gyfer trosolwg lefel uchaf.









Swyddfa Gartref



Cyd-ariannwyd y cyhoeddiad hwn gan  
Gronfa Lloches, Ymfudo ac  
Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd.



Queen Margaret University  
INSTITUTE FOR GLOBAL HEALTH  
AND DEVELOPMENT



UNIVERSITY OF  
BIRMINGHAM

US  
UNIVERSITY  
OF SUSSEX

Ulster  
University